

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Amlwch, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 6 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 6 Chwefror 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol Amlwch, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 6 Tachwedd 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 6 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff ym mhreactis deintyddol Amlwch yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dangos bod y gwasanaeth yn ymateb i adborth gan gleifion gyda phoster 'dywedo chi, gwnaethom ni'
- Sicrhau y caiff cwynion eu cofnodi mewn ffordd lle y gellir nodi themâu rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Darpariaeth dda o wasanaethau Cymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y gellir glanhau pob sedd yn y dderbynfa yn effeithiol
- Cau gorlif y sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer dihalogi a sterileiddio cyfarpar
- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth dda ym mhreactis deintyddol Amlwch, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod gweinyddydd y practis a'r prif ddeintydd yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant y staff
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith
- Roedd prosesau cadarn ar waith i recriwtio a sefydlu staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Dywedodd pob ymatebydd ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un. Fodd bynnag, dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gfael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn garedig ac yn gyfeillgar, yn barod i helpu bob amser ac yn llawn cydymdeimlad. Rhoddir digon o rybudd os bydd angen iddynt ganslo eich apwyntiad a bydd apwyntiad arall ar gael bob amser. Maen nhw bob amser yn diwallu eich anghenion.”

“Nawr bod ystafell aros newydd yn y practis mae'r mynediad yn ardderchog ac yn llawer gwell na'r hen fynedfa.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth dda o daflenni a phosteri yn y dderbynfa, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir yn ogystal â pheth cyngor iechyd, fel rhoi'r gorau i smygu. Roedd taflen wybodaeth gynhwysfawr ar gael i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn bwriadu sicrhau bod gwybodaeth bellach ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros, gan gynnwys gwybodaeth am faterion iechyd y geg ac iechyd cyffredinol, drwy ddefnyddio'r teledu a gafodd ei osod fel rhan o waith adnewyddu diweddar.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardal aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd y cleifion.

Roedd prisiau'r triniaethau i'w gweld yn glir i gleifion ar bosteri yn y dderbynfa.

Roedd naw egwyddor cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd enwau'r deintyddion a'r therapydd a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu allan i'r practis ac yn y dderbynfa. Gwnaethom nodi bod enwau'r nyrsys deintyddol ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion ond nad oedd eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y daflen wybodaeth i gleifion ei diweddarau i sicrhau bod enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion a oedd am gael sgwrs gyfrinachol fynd i swyddfa gweinyddydd y practis neu ddeintyddfa wag.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod llinellau ffôn mewnol a system negeseuon uniongyrchol ar waith yn y practis. Fel rheol, byddai'r nyrsys deintyddol yn rhoi

gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ar y drws ffrynt, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd rhifau ffôn i'w defnyddio mewn argyfwng, y tu allan i'r oriau agor, ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r practis.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion drefnu apwyntiadau yn bersonol neu dros y ffôn. Yn ogystal, byddai galwad ffôn i drefnu apwyntiad yn dilyn unrhyw geisiadau drwy e-bost.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ddyddiol a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion. Roedd y practis hefyd yn cynnal sesiwn wythnosol ar gyfer trin cleifion brys o'r tu allan i'r practis, gan ddefnyddio gwasanaeth GIG 111.

Dywedodd pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt, pan fo'u hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Gwelwyd bod y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddarparu yn y practis. Roedd sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ac yn gwisgo'r bathodynau iaith Gwaith i ddangos hyn. Roedd amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd poster yn rhoi gwybod i gleifion bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.

Roedd polisi iaith a Chyfathrebu ar waith yn y practis a oedd yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio dehonglwyr a dogfennau cyfieithu. Nodwyd bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd gan y practis bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer cleifion a pholisi Cyfleoedd Cyfartal ar gyfer staff. Roedd y ddau bolisi yn gyfredol ac wedi'u llofnodi gan y staff. Roedd y polisiâu'n gynhwysfawr, yn cyfeirio at ddeddfwriaeth briodol ac yn disgrifio'r mathau gwahanol o nodweddion gwarchoddedig a gwahaniaethu.

Dyweddod y staff wrthym y byddai enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Roedd darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd y dderbynfa a thair deintyddfa ar y llawr gwaelod. Fel rhan o waith adnewyddu diweddar, cymerwyd camau i wella'r mynediad i'r practis drwy osod drws mwy llydan a mynediad gwastad o'r stryd. Roedd toiled rhywedd cymysg hefyd ar gael ar y llawr gwaelod a dywedodd y staff wrthym fod pobl sy'n defnyddio cadair olwyn wedi ei ddefnyddio.

Roedd y seddi a oedd ar gael yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod yn cynnwys cadeiriau â chefnau uchel a breichiau er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod system teledu cylch cyfyng (CCTV) yn y dderbynfa a'r tu allan i'r safle. Dywedodd y staff wrthym nad oedd y system wedi cael ei gosod yn llawn a chawsom sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd i gofrestru â'r awdurdod priodol ac i roi polisi CCTV ar waith.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y toiled i gleifion yn lân yr olwg ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Roedd polisi lechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, wedi'i ategu gan amrywiaeth gynhwysfawr o asesiadau risg. Gwnaethom nodi nad oedd y polisi lechyd a Diogelwch yn cynnwys cyfeiriad at y rhestrau gwirio misol a ddefnyddir i arolygu cyflwr yr adeilad a'r cyfarpar. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y polisi ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd polisi Parhad Busnes cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys ffyrdd o ddelio â materion gwahanol, manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng.

Roedd dau aelod o'r staff wedi cael eu penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol a chyfredol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith ynghyd â chofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad wedi'i gwblhau ar y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff ac roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol. Gwelsom nad oedd un o'r biniau gwastraff clinigol wedi'i gloi. Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd ystafell newid y gellir ei chloi ar gael i'r staff lle y gallent storio eiddo personol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Gwelsom fod trefn lanhau effeithiol yn y practis.

Roedd cyfarpar a deunyddiau glanhau ar gael ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r mopiau yn cyffwrdd â'i gilydd oherwydd bod diffyg lle, ac roedd hyn yn peri risg o groeshalogi. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd eitemau eu symud er mwyn cael gwared ar y risg o groeshalogi.

Gwelsom fod dwy gadair yn yr ardal aros i gleifion wedi cael eu gorchuddio â deunydd nad oedd modd ei sychu'n lân a bod angen eu glanhau mewn ffordd arbenigol. Roedd hyn yn effeithio ar brosesau rheoli heintiau effeithiol a gwnaethom gynghori y dylid naill ai roi amserlen lanhau briodol ar waith neu osod cadeiriau newydd yn eu lle. Roedd seddi eraill ar gael yr oedd yn bosibl eu sychu'n lân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y gellir glanhau'r holl gadeiriau yn yr ardal aros i gleifion yn ddigonol ac yn effeithiol.

Roedd ystafell ddynodedig ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Nodwyd bod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda, roedd cyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd hefyd. Gwnaethom nodi bod gorfif yn y sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi a gwnaethom gynghori y dylid ei gau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gorfif yn y sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi yn cael ei gau.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC a fynegodd farn yn teimlo bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith. Nid oedd y practis yn dosbarthu meddyginiaethau yn uniongyrchol ac roedd y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd,

roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd dyddiad y cyffuriau brys yn gyfredol ac roeddent wedi'u storio'n briodol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel fel rhan o'u hyfforddiant ar ymdrin ag argyfyngau meddygol. Roedd y cyflenwr wedi darparu 'canllaw i ddefnyddwyr' cynhwysfawr a gwnaethom argymhell y dylai pob aelod o'r staff ddarllen y canllaw a'i lofnodi i ddangos eu bod wedi gwneud hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen y canllaw i ddefnyddwyr ar gyfer defnyddio'r silindrau ocsigen yn ddiogel a chofnodi eu bod wedi gwneud hynny.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith, eu bod ar gael i bob aelod o'r staff, a'u bod yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd siartiau llif y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael i'r staff hefyd.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel tri a nodwyd bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys y cywasgydd.

Gwelsom fod ffeil diogelu rhag ymbelydredd cyflawn a stocrestr o gyfarpar pelydr-X a chofnodion cynnal a chadw ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Roedd Rheolau Lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ar waith ac roedd y daflen flaen i'w gweld yn y deintyddfeydd. Gwnaethom gynghori y dylid cynnwys copi llawn o'r Rheolau Lleol yn ffolder y clinigwyr ym mhob deintyddfa er hwylustod.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod copi llawn o'r Rheolau Lleol ar gael yn rhwydd i'r staff clinigol ym mhob deintyddfa.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn dod o hyd i ganllawiau a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Gwnaethom argymhell y dylid cynnwys copi yn ffolder y clinigwyr ym mhob deintyddfa er hwylustod.

Rydym yn argymhell bod copi o restrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol ar gael yn rhwydd i'r staff clinigol ym mhob deintyddfa.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod o safon uchel, a bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn ffordd dda iawn a chyson. Roedd systemau ar waith i nodi dewis iaith y cleifion ac roedd y staff yn eu rhoi ar waith.

Gwnaethom nodi un enghraifft lle roedd gwrthfotigau wedi cael eu rhagnodi. Roedd enw'r gwrthfotigau a hyd y cwrs wedi cael eu nodi, ond nid oedd gwybodaeth am gryfder y dos na pha mor aml y dylid eu cymryd wedi'i chynnwys. Gwnaethom gynghori y dylid cynnwys mwy o fanylion wrth ragnodi gwrthfotigau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cofnodion sy'n gysylltiedig â'r broses rhagnodi gwrthfotigau yn fanwl ac yn gyflawn.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn anelu at ddiwallu eu hanghenion lle y bo'n bosibl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan y staff i holiadur AGIC. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant digonol a bod ganddynt y cyfarpar a'r amser i ddarparu gofal da i'w cleifion. Roedd pob ymatebydd yn cytuno'n gryf mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis ac y byddai'n argymhell y practis fel lle i weithio ynddo ac ar gyfer unrhyw ffrindiau neu berthnasau y mae angen triniaeth arnynt.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"...mae cydweithio'n dda yn rhan wych o ddiwylliant y practis. Byddwn yn fwy na bodlon argymhell y practis i fy ffrindiau a'm teulu am ei broffesiynoldeb, ansawdd y gofal a'r adeilad neilltuol."

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, dan gyfarwyddyd y prif ddeintydd a oedd hefyd yn berchennog ac yn weinyddyd y practis. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cymryd. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, eu bod wedi cael eu llofnodi gan y staff a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion.

Roedd y gwiriadau'n cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio yn y DU, statws brechu, cymwysterau a geirdaon. At hynny, roedd y practis yn cynnal gwiriadau gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd rhestrau gwirio

sefydlu yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y staff yn deall materion a oedd yn ymwneud â'r practis a'r safle, ac unrhyw faterion a oedd yn benodol i'w rôl.

Dywedodd gweinyddydd y practis wrthym nad oedd staff dros dro na staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd blwch a darnau o bapur yn nerbynfa'r practis i'r cleifion roi adborth neu sylwadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn ceisio adborth gan gleifion drwy e-bost a thrwy ddsbarthu arolygon papur.

Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar yr adborth gan gleifion. Gwnaethom awgrymu y gellid cyfleu hyn i'r cleifion gan ddefnyddio poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd o ganlyniad i adborth, gan ddefnyddio poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer cyrff allanol priodol.

Dywedodd y staff wrthym fod mân gwynion ar lafar yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, a bod cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio systemau electronig. Gwnaethom gynghori y byddai cofnodlyfr cyffredinol yn helpu i nodi unrhyw themâu rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system ei rhoi ar waith i nodi unrhyw faterion neu themâu rheolaidd sy'n codi yng nghwynion y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y caiff unrhyw gamau gweithredu neu wersi a ddysgwyd o gwynion ac adborth eu rhannu yn ystod cyfarfodydd staff a sgrymiau dyddiol fel rheol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau yn cael eu storio a'u cynnal yn electronig, ac

roedd copïau papur hefyd ar gael. Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw fel cyfuniad o gofnodion electronig a chofnodion papur.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau priodol ar waith yn y practis i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen o archwiliadau clinigol, proses Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd flynyddol, arolygon boddhad cleifion a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth dda o archwiliadau wedi cael eu cynnal, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau, ansawdd radiograffig, sicrwydd ansawdd y cyfarpar ymbelydredd, rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r gorau i smygu a chadw cofnodion clinigol. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn defnyddio adnoddau hyfforddi gwella ansawdd a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd prosesau rhyngweithio â phartneriaid y system yn digwydd dros y ffôn neu dros e-bost fel arfer, ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio system ar-lein.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd enwau'r deintyddion na'r therapydd, na'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos. Roedd enwau'r nyrsys deintyddol ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion ond nid oedd eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael.	Nid oedd y cleifion yn cael gwybod manylion llawn y staff clinigol a oedd yn rhoi gofal iddynt.	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis.	Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y daflen wybodaeth i gleifion ei diweddarau i sicrhau bod enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion.
Nid oedd y polisi lechyd a Diogelwch yn cynnwys cyfeiriad at y rhestrau gwirio misol a ddefnyddir i arolygu cyflwr yr adeilad a'r cyfarpar.	Nid oedd cynnal gwiriadau lechyd a Diogelwch misol wedi'i sefydlu fel un o ofynion y practis.	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis.	Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y polisi ei ddiweddarau yn unol â hynny.
Gwelsom nad oedd un o'r biniau gwastraff clinigol wedi'i gloi.	Roedd hyn yn peri risg y gallai pobl heb awdurdod	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis.	Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

	gael gafael ar y gwastraff clinigol.		
Roedd cyfarpar a deunyddiau glanhau ar gael ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r mopiau yn cyffwrdd â'i gilydd oherwydd bod diffyg lle.	Roedd hyn yn peri risg o groeshalogi.	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis a'r arweinydd atal a rheoli heintiau.	Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd eitemau eu symud er mwyn cael gwared ar y risg o groeshalogi.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis deintyddol Amlwch

Dyddiad yr arolygiad: 6 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Swydd: Dd/G

Dyddiad: Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis deintyddol Amlwch

Dyddiad yr arolygiad: 6 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd dwy gadair yn yr ardal aros i gleifion wedi cael eu gorchuddio â deunydd nad oedd modd ei sychu'n lân ac roedd angen eu glanhau mewn ffordd arbenigol. Roedd hyn yn effeithio ar brosesau rheoli heintiau effeithiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y gellir glanhau'r holl gadeiriau yn yr ardal aros i gleifion yn ddigonol ac yn effeithlon.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b)	Maent wedi cael eu symud o'r dderbynfa, nes y bydd cadeiriau y gellir eu sychu yn cyrraedd.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
2. Roedd gan y sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi system gorlif.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y system gorlif yn y sinc golchi	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(3) a	Mae'r system gorlif wedi cael ei chau	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

		dwylo yn yr ystafell ddihalogi ei chau.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05			
3.	Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ystod hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Gwnaethom argymhell y dylai'r staff feddu ar ymwybyddiaeth benodol o ofynion trin yn ddiogel.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen y canllaw i ddefnyddwyr ar gyfer defnyddio'r silindrau ocsigen yn ddiogel a chofnodi eu bod wedi gwneud hynny.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13 a Chylchlythyr Iechyd Cymru 2024-36	Mae hyfforddiant ar y canllaw i ddefnyddwyr ar gyfer ocsigen adfer wedi cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff. Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi a dyddio'r daflen.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
4.	Roedd Rheolau Lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ar waith ac roedd y daflen flaen i'w gweld yn y deintyddfeydd.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod copi llawn o'r Rheolau Lleol ar gael yn rhwydd i'r staff clinigol ym mhob deintyddfa.	Rheoliad 6 o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae ffeil ar wahân ar gael i Glinigwyr yn y deintyddfeydd sy'n cynnwys copi o'r rheolau lleol	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
5.	Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau	Rydym yn argymhell bod copi o restrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol ar gael yn rhwydd i'r staff	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13 (8)	Mae ffeil ar wahân ar gael i Glinigwyr yn y deintyddfeydd sy'n cynnwys copi o restrau gwirio'r Safonau	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	<p>Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.</p> <p>Gwnaethom argymhell y dylid cynnwys copi yn ffolder y clinigwyr ym mhob deintyddfa er hwylustod.</p>	<p>clinigol ym mhob deintyddfa.</p>		<p>Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol.</p>		
6.	<p>Gwelsom fod cofnod un claf yn nodi bod gwrthfotigau wedi cael eu rhagnodi.</p> <p>Roedd enw'r gwrthfotigau a hyd y cwrs wedi cael eu nodi, ond nid oedd gwybodaeth am gryfder y dos na pha mor aml y dylid eu cymryd wedi'i chynnwys.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cofnodion sy'n gysylltiedig â'r broses rhagnodi gwrthfotigau yn fanwl ac yn gyflawn.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)</p>	<p>Mae pob Clinigydd wedi cael gwybod am y canfyddiadau a bydd Rheolwr y Practis yn cynnal archwiliad mewn 3 mis.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
7.	<p>Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar yr adborth gan gleifion.</p>	<p>Dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd o ganlyniad i adborth, gan ddefnyddio poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)</p>	<p>Mae poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi cael ei arddangos.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

8.	Roedd cwynion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion ac ar systemau electronig. Gwnaethom gynghori y byddai cofnodlyfr cyffredinol yn helpu i nodi unrhyw themâu rheolaidd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system ei rhoi ar waith i nodi unrhyw faterion neu themâu rheolaidd sy'n codi yng nghwynion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2) a 21(5)	Mae cofnodlyfr cwynion ar wahân wedi cael ei roi ar waith er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion neu themâu rheolaidd.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
----	--	--	---	--	-------------------	----------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): J M Klevin Fernando / Laura Parvu

Swydd: Rheolwr Cofrestredig / Rheolwr y practis

Dyddiad: 11/12/2024